

# Hysbysiad Preifatrwydd Rhaglen Frechu COVID-19 i Staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Diben yr hysbysiad hwn

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut y bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu yn ystod pandemig COVID-19 a Strategaeth Profi, Orlhain, Diogelu'r Llywodraeth er mwyn lleihau nifer yr heintiadau. Mae brechu yn rhan sylfaenol o'r ymateb o safbwynt iechyd cyhoeddus, ac mae'n rhan o gam 'Diogelu' strategaeth y Llywodraeth. Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio yn benodol sut y byddwn yn trin eich gwybodaeth yn ystod y cam brechu. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yma: <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html>

## Beth fydd yn digwydd nesaf? Fydd angen i mi roi caniatâd i fy ngwybodaeth gael ei rhannu?

Na, fyddwn ni ddim yn gofyn eich cydsyniad. Rydyn ni'n trafod y sail gyfreithiol i brosesu eich data personol ar dudalen 2.

Bydd gofyn i'ch cyflogwr rannu manylion cyswllt staff â ni er mwyn i ni allu anfon llythyr apwyntiad atoch i'ch cyfeirio at ganolfan frechu leol. Mae'n bwysig nodi bod y data sy'n cael eu darparu ddim yn golygu bod rhaid i staff gael eu brechu os nad ydyn nhw eisïau cael brechiad. Dydy hyn ddim yn gwarantu y bydd hawl gyda nhw i gael brechiad chwaith.

Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd gasglu rhywfaint o wybodaeth glinigol amdanoch os nad yw'r wybodaeth hon gyda'r Bwrdd yn barod e.e. a ydych chi wedi cael brechiad ffliw, neu a oes unrhyw alergeddau gyda chi. Bydd y wybodaeth hon, a'r ffaith eich bod wedi dewis cael brechiad, yn cael ei chadw ar eich cofnod meddygol ac ar System Imiwneiddio Cymru (WIS).

Wedi i chi gael eich brechu gallai eich Meddyg Teulu, eich awdurdod lleol neu Adran Iechyd Galwedigaethol eich cyflogwr gael gwybod am hyn. Bydd hyn yn eu helpu gyda'u rhwymedigaethau cyfreithiol i ofalu am eich iechyd, eich lles a'ch diogelwch chi, yn ogystal â iechyd, lles a diogelwch pobl eraill. At yr un diben, gallai eich Meddyg Teulu, eich awdurdod lleol neu Adran Iechyd Galwedigaethol eich cyflogwr gael gwybod os byddwch yn gwrthod cael y brechiad.

## Pa sefydliadau sy'n edrych ar fy nata, yn eu casglu ac yn eu defnyddio?

Yn ddibynnol ar ble yr ydych yn byw, bydd eich data'n cael eu casglu a'u defnyddio (yr enw ar hyn yw 'prosesu') gan un neu fwy o'r sefydliadau a nodir isod. Mae'r sefydliadau hyn i gyd wedi ennill statws 'Rheolydd Data ar y Cyd', sy'n golygu eu bod yn gyfrifol yn gyfreithiol am y data y maen nhw'n eu prosesu. Yn yr achos hwn, y data ynghylch eich brechiad sydd dan sylw. Maen nhw i gyd yn rhan o gytundeb Cymru gyfan sy'n nodi sut a pham maen nhw'n prosesu'r wybodaeth honno.

- Eich cyflogwr
- 7 Bwrdd Iechyd Lleol GIG Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Felindre (trwy Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru)
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Pa ddata personol fydd yn cael eu casglu a'u defnyddio?

Er mwyn helpu gyda'r rhaglen frechu, bydd angen i'ch Bwrdd Iechyd Lleol gasglu eich data personol. Gallai'r data mae'n eu casglu gynnwys y canlynol:

- Enw llawn
- Dyddiad geni
- Rhywedd
- Dewis iaith
- Rhif GIG (os yw'n hysbys)
- Cyfeiriad llawn yn cynnwys cod post
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad e-bost
- Y modd yr hoffech i ni gysylltu â chi
- Anableddau ac ethnigrwydd
- Alergeddau
- Statws o ran brechu
- Hanes Imiwneiddio

Bydd eich rhif ffôn symudol yn cael ei ddefnyddio i anfon negeseuon atgoffa atoch. Bydd eich e-bost yn ddull amgen er mwyn cysylltu â chi. Bydd eich cyflogwr yn rhoi rhywfaint o'r manylion hyn i Dîm Brechu'r Bwrdd Iechyd er mwyn i'r Tîm Brechu allu cynnig brechiad i chi. Bydd rhywfaint o'r manylion hefyd yn cael eu casglu gan y Tîm Brechu pan fyddan nhw'n cysylltu â chi.

## Am ba hyd y bydd eich data personol yn cael eu cadw?

Bydd unrhyw frechiadau yr ydych wedi eu cael, canlyniad unrhyw brawf yr ydych wedi ei gael ac unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â chyflyrau parhaus sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn aros ar eich cofnod iechyd yn unol ag atodlenni cadw'r GIG.

## A fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio at unrhyw ddiben arall heblaw am frechiadau?

Gallai'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu gan y Bwrdd Iechyd gael ei defnyddio at y dibenion canlynol hefyd:

- Deall achosion a thueddiadau COVID-19 er mwyn rheoli'r risg i iechyd cyhoeddus, rheoli COVID-19 a'i atal rhag lledaenu.
- Nodi a deall gwybodaeth am gleifion neu gleifion sydd o bosibl gyda COVID-19 neu sydd mewn perygl o'i ddal.
- Darparu gwasanaethau iechyd a lles i ddinasyddion ledled Cymru.
- Sicrhau bod pob aelod o staff ym mhob gweithle yn ddiogel ar bob adeg.
- Gwneud gwaith ymchwil a chynllunio mewn perthynas â COVID-19 (gallai hyn gynnwys gwahoddiad i fod yn rhan o dreialau clinigol).
- Monitro'r modd y mae COVID-19 yn datblygu.

## Beth yw'r sail gyfreithiol i brosesu fy nata personol?

Yn y lle cyntaf, bydd eich cyflogwr yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol canlynol o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) i roi eich manylion i'r Bwrdd Iechyd Lleol er mwyn iddo gynnig brechiad i chi:

- Erthygl 6(1)(c) – Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r rhwymedigaeth gyfreithiol (Iechyd a Diogelwch) y mae'r Rheolwr (eich cyflogwr) yn ddarostyngedig iddo.
- Erthygl 6(1)(f) – Mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion bodloni diddordebau dilys y rheolwr neu drydydd parti, heblaw lle mae diddordebau neu hawliau a rhyddid sylfaenol gwrthrych y data y mae angen diogelu data personol arno yn drech na'r diddordebau hynny, yn enwedig lle y mae gwrthrych y data yn blentyn. Mae Prawf Diddordebau Dilys wedi cael ei gymhwyso yn rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data er mwyn cadarnhau bod y sail gyfreithiol hon wedi'i chymhwyso.

Unwaith y bydd y wybodaeth hon gyda'r Bwrdd Iechyd, dyma'r sail gyfreithiol y bydd yn ei defnyddio i brosesu eich data personol at ddibenion brechu o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol:

- Erthygl 6(1)(e) – Mae'r dasg yn cael ei chyflawni er budd y cyhoedd neu wrth arfer yr awdurdod swyddogol sydd wedi ei roi i'r rheolwr (y Bwrdd Iechyd).

Ar gyfer data o gategorïau arbennig (data iechyd) bydd angen sail gyfreithiol ychwanegol, ac yn yr achos hwn mae dwy yn berthnasol:

- Erthygl 9(2)(h) – Darparu meddygaeth alwedigaethol neu ataliol, triniaeth neu ofal iechyd neu gymdeithasol, neu reoli systemau gofal iechyd neu gymdeithasol.
- Erthygl 9(2)(i) – Mae'n rhaid i brosesu'r data fod yn angenrheidiol er lles y cyhoedd ym maes iechyd cyhoeddus (e.e. diogelu rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ofal a diogelwch mewn gofal iechyd, cynnyrch meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol).

## Deddfau perthnasol eraill

Mae nifer o ddarnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n caniatáu ac yn galluogi'r sefydliadau dan sylw i gasglu a defnyddio'ch data. Dyma'r rhai pwysicaf:

- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rheoli Gwybodaeth am Gleifion) 2002.
- Deddf y Coronafeirws 2020
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020

## Manylion cyswllt defnyddiol

Gallwch gael manylion am sut y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn trin eich holl wybodaeth trwy fynd i <https://cwmtafmorgannwg.wales/privacy-statement-for-patient-information/>

Os oes unrhyw bryderon neu gwynion gyda chi ynglŷn â'r modd y mae eich data personol yn cael eu trin dylech gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn gyntaf. Mae ei fanylion isod:

Swyddog Diogelu Data  
Tŷ Ynysmeurig  
Uned 3, Parc Hen Lofa'r Navigation  
Abercynon  
Rhondda Cynon Taf

CF45 2SN

E-bost: [informationgovernancedepartment@wales.nhs.uk](mailto:informationgovernancedepartment@wales.nhs.uk)

Fodd bynnag, os ydych chi'n anfon o hyd, cewch chi gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru.  
Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill,  
Ffordd Churchill,  
Caerdydd  
CF10 2HH

Rhif ffôn: 0330 414 6421

E-bost: [wales@ico.org.uk](mailto:wales@ico.org.uk)